# PWYLLGOR CRAFFU
# DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

**7 MAWRTH 2022**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.D. James (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, T.A.J. Davies, J.A. Davies, K. Davies, S.J.G. Gilasbey, T.M. Higgins, E. Morgan, B.D.J. Phillips, J.S. Phillips, D. Thomas ac A. Vaughan Owen.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd C.A. Davies, Aelod y Cabinet dros Cymunedau a Materion Gwledig;
Y Cynghorydd H.A.L. Evans, Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd;
Y Cynghorydd P.M. Hughes, Aelod y Cabinet dros Diogelu'r Cyhoedd.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
N. Daniel, Pennaeth Gwasanaethau TGCh; Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cynllunio;
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth;
J. Edwards, Rheolwr Gwella Busnes;
D.W. John, Rheolwr Gwasanathau Amgylcheddol;
R. S. Waters, Rheolwr Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
I. Macho, Swyddog Bioamrywiaeth;
A. Eynon, Prif Gyfieithydd;
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod: 2:00yp - 3:05yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P Edwards a A.D.T. Speake.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. YMESTYN GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS (GORCHMYNION CŴN SIR GAERFYRDDIN)

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Ddiogelu'r Cyhoedd mewn perthynas ag ymestyn y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus presennol a oedd yn dod i ben ddiwedd mis Mehefin am 3 blynedd arall.

Esboniodd yr Aelod Cabinet yn amodol ar nifer o eithriadau a chyfyngiadau, roedd y Gorchymyn Gwreiddiol yn ei gwneud yn ofynnol i bobl:

- Godi baw eu cŵn ar yr holl dir cyhoeddus yn y Sir.
- Rhoi a chadw eu cŵn ar dennyn drwy gyfarwyddyd.
- Peidio â mynd â'u cŵn ar unrhyw fannau chwarae caeedig i blant yn y Sir na gadael i'w cŵn fyned i nac aros ar unrhyw fannau o'r fath.

Eglurodd yr Aelod Cabinet ymhellach fod cyfnod ymgynghori wedi'i dargedu ar ymestyn y Gorchymyn wedi'i gynnal gyda nifer o ymgyngoreion statudol a rhanddeiliaid perthnasol eraill, ac roedd rhestr wedi'i chynnwys yn yr adroddiad. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod nifer o ymatebion wedi dod i law gan unigolion a sefydliadau nad oedd wedi'u gwahodd i ymateb. Cafwyd 43 o ymatebion gydag 85% o'r ymatebwyr hynny yn cefnogi ymestyn y Gorchymyn presennol am gyfnod o 3 blynedd.

Dywedwyd bod nifer o ymatebwyr wedi rhoi sylwadau / awgrymiadau i'r ymgynghoriad a bod y sylwadau a'r ymatebion yn Atodiad 8 yr adroddiad.

Nododd Aelodau'r Pwyllgor fod yr adroddiad hwn yn ceisio ymestyn hyd Gorchymyn 2016 a byddai angen gwneud Gorchymyn Estyn newydd, ac roedd Gorchymyn drafft wedi'i atodi i'r adroddiad yn Atodiad 2. Dywedwyd y byddai'r Awdurdod, yn amodol ar ymgynghoriad ar wahân, yn gallu ystyried rheolaethau ac amodau ychwanegol i'w hychwanegu at y Gorchymyn presennol yn y dyfodol a bod ymarfer ymgysylltu'n cael ei gynnal ar hyn o bryd i geisio barn ehangach.

Holwyd ynghylch y canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:-

- Mewn ymateb i ymholiad a godwyd ynghylch Hysbysiadau Cosb Benodedig, eglurodd yr Aelod Cabinet dros Ddiogelu'r Cyhoedd fel y nodwyd yn 3.1 o'r adroddiad, ers i Orchymyn 2016 ddod i rym cafwyd 3002 o gwynion mewn perthynas â baw cŵn (hyd at 31/12/2021) Roedd 100 o docynnau cosb benodedig wedi'u rhoi ac roedd 6 erlyniad wedi'u rhoi ar waith i droseddwyr nad oedd wedi talu'r hysbysiad cosb benodedig. Pwysleisiwyd mai'r anhawster oedd y byddai'n rhaid i swyddog gorfodi fod yn dyst i'r digwyddiad ar adeg y drosedd er mwyn gallu cyflwyno hysbysiad cosb benodedig.

- Gofynnwyd a oedd modd gorfodi'r Gorchymyn y tu allan i le caeedig ac a oedd palmentydd yn cael eu cynnwys? Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod y Gorchymyn yn cwmpasu unrhyw dir cyhoeddus ac y byddai mannau caeedig â ffens fel maes chwarae i blant yn cynnwys parth dim cŵn. Eglurwyd bod llwybrau troed yn cael eu cynnwys fel tir cyhoeddus ac felly'n dod o dan y Gorchymyn.

- Gan gyfeirio at yr ymateb gan y Kennel Club fel rhan o'r ymgynghoriad, dywedwyd bod yn rhaid i ffermwyr ddarparu dogfennau i brofi eu bod yn trin eu cŵn o ran llyngyr er mwyn cael yswiriant. Fodd bynnag, mynegwyd bod perchnogion cŵn yn gallu cerdded eu cŵn ar lwybrau cyhoeddus a chroesi tir amaethyddol gan achosi pryder o ran trosglwyddo llyngyr i wartheg a defaid. Gofynnwyd a oedd modd cynnwys bod gan y tirfeddiannwr yr hawl i holi perchennog y ci a oedd yn trin y ci o ran llyngyr. Roedd yr Aelod Cabinet dros Ddiogelu'r Cyhoedd wedi cydnabod yr ymholiad fel pryder a chytunodd i gynnwys y mater fel rhan o'r ymgynghoriad yn y dyfodol. Roedd yr Aelod Cabinet yn cydnabod y pryder a byddai'n ei gynnwys yn yr ymgynghoriad.

- Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Ddiogelu'r Cyhoedd, a gadarnhawyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff, fod gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu y pŵer i roi hysbysiadau cosb benodedig i berchnogion nad oedd yn codi baw eu cŵn ac mae hyn yn ategu'r gwaith a wneir gan swyddogion gorfodi'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CABINET:**

**4.1 Bod hyd Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn) Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ymestyn am gyfnod pellach o 3 blynedd o 1 Gorffennaf 2022 ymlaen;**

**4.2 Bod y Cyngor yn gwneud Gorchymyn Estyn i weithredu'r estyniad uchod ac yn cymeradwyo Gorchymyn 2016 â geiriad addas er mwyn adlewyrchu'r ffaith fod hyd Gorchymyn 2016 wedi cael ei ymestyn.**

## 5. CYNLLUN BUSNES ADRANNOL Y PRIF WEITHREDWR 2022/23

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau a Materion Gwledig yr adroddiad gan egluro bod Cynllun Busnes Drafft yr Adran Cymunedau 2022/23 ond yn cynnwys darnau o Gynllun Busnes Adran y Prif Weithredwr ar gyfer yr Is-adran TGCh a Pholisi Corfforaethol a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor Craffu hwn, sef diogelwch cymunedol.

Bu'r Aelodau yn ystyried y rhannau oedd yn berthnasol i Ddiogelwch Cymunedol.

Holwyd ynghylch y canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:-

- Mewn ymateb i ymholiad a oedd yn gofyn am eglurhad o ran tebygrwydd y disgrifiadau yn y Camau Gweithredu a Mesurau Allweddol Cyfeirnod 1, 2, 4 a 7, esboniodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth fod y dyfyniad yn cynnwys camau gweithredu o'r cynllun adrannol yn ogystal â'r cynllun is-adrannol er mwyn darparu mwy o gyd-destun. Wrth gydnabod bod y geiriad yn debyg iawn ei natur, roedd y rheswm dros y tebygrwydd o ganlyniad i'r ddyletswydd o ran elfen gwrthderfysgaeth y Strategaeth Contest a bod gofyniad newydd yn benodol o ran y 'ddyletswydd amddiffyn'. At hynny, wrth dderbyn y pwynt a godwyd ynglŷn â'r geiriad, cytunodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth i aralleirio hyn er mwyn rhoi eglurder.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i dderbyn elfennau Diogelwch Cymunedol Cynllun Busnes yr Adran Cymunedau 2022/23 a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Craffu hwn.**

## 6. CYNLLUN BUSNES ADRANNOL YR AMGYLCHEDD 2022/23

Bu Aelodau'r Pwyllgor yn ystyried Cynllun Busnes Adran yr Amgylchedd 2022/23 a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd, Diogelu'r Cyhoedd a'r Aelod Cabinet dros Gymunedau a Materion Gwledig mewn perthynas â'r meysydd a oedd yn dod o fewn eu portffolios a chylch gwaith y Pwyllgor.

Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau a Materion Cyhoeddus, er bod Carbon Sero Net yn rhan o bob maes o waith y Cyngor, roedd y cyfrifoldeb o dan Adran yr Amgylchedd ac felly roedd y camau a'r mesurau priodol bellach wedi'u cynnwys yng Nghynllun Busnes Adran yr Amgylchedd.

Holwyd ynghylch y canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y Gwelliannau a Gynllunnir ar gyfer 2022/23 mewn perthynas â chyflwyno'r terfynau cyflymder 20mya sydd wedi'u rhagosod yn genedlaethol mewn ardaloedd preswyl. Mynegwyd bod nifer o bentrefi heb unrhyw derfyn o dan y terfyn cyflymder cenedlaethol o 60mya, gofynnwyd sut y byddai hyn yn effeithio ar y rhain? Eglurodd yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd fod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn edrych ar yr ardaloedd hynny sydd â therfynau o 30mya ac y byddent yn edrych ar ardaloedd trefol yn hytrach nag ardaloedd gwledig. Mewn ymateb i ymholiad pellach ynghylch ardaloedd preswyl lle nad oedd terfynau wedi'u pennu ar hyn o bryd, eglurodd y Rheolwr Priffyrdd a Thrafnidiaeth fod deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r term 'ffyrdd cyfyngedig', lle byddai'r terfyn cyflymder yn cael ei reoli gan system o oleuadau stryd. Lle mae goleuadau stryd yn bodoli ar ffyrdd gyda therfyn cyflymder o 30mya, roedd y ddeddfwriaeth newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r ardaloedd hyn gael eu gostwng i 20mya. Felly, ni fyddai'r ddeddfwriaeth newydd yn effeithio ar y pentrefi hynny heb oleuadau stryd na therfyn cyflymder o 30mya.

  Mewn ymateb i ymholiad pellach ynghylch ardaloedd preswyl heb unrhyw derfyn cyflymder ar hyn o bryd, dywedodd y Rheolwr Priffyrdd a Thrafnidiaeth, er na fyddai'r ardaloedd hyn yn cael eu hystyried o dan y ddeddfwriaeth, y gellid ystyried aneddiadau a allai elwa ar gyflwyno terfyn cyflymder fel rhan o'r prosiect.

- Cyfeiriwyd at y mesur a nodwyd ar dudalen 29 o'r adroddiad cyf. E11 - "byddwn yn ehangu'r dull llwyddiannus hwn ac yn defnyddio cytundebau A106 a chyfraniadau gan ddatblygwyr i gyflawni buddion bioamrywiaeth angenrheidiol lle bo'n briodol. (Medi 2022 & Mawrth 2023)". Dywedwyd bod yr Aelodau wedi cael gwybod yn ddiweddar y gallent wneud cais am arian A106 i'w ddefnyddio yn eu cymunedau. Gofynnwyd am eglurhad ar y mesur oherwydd pryderon y gallai cymunedau golli allan ar gael yr arian A106. Esboniodd y Swyddog Bioamrywiaeth, ar gyfer datblygiadau lle'r oedd effaith sylweddol ar fioamrywiaeth, na ellid ei lliniaru ar y safle neu le'r oedd yn gymhleth gwneud hynny, fod y Cyngor wedi mabwysiadu dull llwyddiannus lle derbyniwyd cyllid A106 i Gyngor Sir Caerfyrddin ymgymryd â mesurau lliniaru priodol/iawndal i'r datblygwr ar y safle neu oddi ar y safle drwy gynllun rheoli a oedd wedi'i ariannu ac y cytunwyd arno. Byddai hyn yn golygu na fyddai unrhyw golled net o ran bioamrywiaeth, a byddai'n caniatáu i'r datblygiad gael ei gyflawni. Rhoddodd y Swyddog Bioamrywiaeth enghreifftiau perthnasol i'r Pwyllgor.

- Cyfeiriwyd at dudalen 41 yr adroddiad - Cyf 43 - Gwella Llwybrau Teithio Llesol i Gymunedau. Nododd y Rheolwr Priffyrdd a Thrafnidiaeth, mewn ymateb i ymholiad am beidio â chynnwys troedffordd y Cardi Bach, fod y fenter Teithio Llesol ar y cyfan wedi'i hanelu at symud oddi wrth gerbydau gan annog cerdded a beicio. Esboniwyd bod prosiect y Cardi Bach yn dal i fod yn y camau cychwynnol o ran datblygiad a bod y Cyngor yn gweithio gyda Sustrans a Chyngor Sir Penfro ynghylch dichonoldeb y prosiect. Ni fyddai'n cael ei gynnwys yn y cynllun busnes hyd nes bod yr astudiaethau dichonoldeb mewn sefyllfa i ddarparu cynnig pendant ynghyd â chyllid wedi'i ddiogelu ar gyfer y cynllun, a fyddai hefyd yn cynnwys y cerrig milltir angenrheidiol ar gyfer y prosiect.

- Rhoddwyd canmoliaeth o ran datblygiad y cynllun busnes ar ei newydd wedd, a oedd yn cynnwys mwy o wybodaeth, yn fwy darllenadwy ac yn haws ei ddeall, gan ddangos cyfeiriad y gwaith a sut olwg fyddai ar lwyddiant. Mynegwyd gwerthfawrogiad i'r swyddogion hynny a fu'n rhan o ddatblygu'r cynllun.

- Cyfeiriwyd at Eitem 9 ar yr Agenda - Adroddiadau heb eu cyflwyno a oedd yn rhoi esboniad pam nad oedd adroddiad Cynllun Busnes yr Adran Cymunedau 2022/23 wedi'i gyflwyno. Yn unol â'r esboniad, mynegwyd y byddai'r eitemau'n cael eu rhoi yng Nghynllun Adran yr Amgylchedd. Gofynnwyd pryd y byddai hyn yn cael ei gynnwys? Dywedodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau mwy Diogel, wrth i'r Is-adran newydd sef Lle a Chynaliadwyedd gael ei sefydlu, byddai'n ddoeth ystyried y synergedd presennol â Diogelu'r Cyhoedd. Yn dilyn y darn hwn o waith, byddai Cynllun Busnes yr Adran Cymunedau yn cael ei gyflwyno i Aelodau'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2022.

- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r cynlluniau yn y dyfodol i ddechrau'r amnestau gwastraff yng Ngogledd y Sir, esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Amgylcheddol y byddai adolygiad o’r arferion yn rhan o'r broses adfer yn dilyn y pandemig. Byddai nifer yr amnestau a lleoliadau hefyd yn cael eu hadolygu, a byddai cyfathrebu ag Aelodau lleol yn flaenoriaeth wrth symud tuag at arferion gwaith arferol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Cynllun Busnes Adran yr Amgylchedd 2022/23 yn cael ei dderbyn.**

## 7. OPSIYNAU HYGYRCHEDD MEWN CANOLFANNAU AILGYLCHU GWASTRAFF Y CARTREF YN Y DYFODOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad am wybodaeth a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ac opsiynau ar gyfer y dyfodol ar gyfer y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

Roedd yr adroddiad hwn yn ceisio darparu strategaeth hygyrchedd ar gyfer y dyfodol ar gyfer gwasanaeth y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn Sir Gaerfyrddin a fyddai'n sicrhau gwasanaeth effeithlon a hygyrch i drigolion Sir Gaerfyrddin a sicrhau ein bod yn ailgylchu cymaint â phosibl wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn yn y tymor hir.

Bu'r Aelodau'n ystyried yr adroddiad a oedd yn nodi'r sefyllfa bresennol a’r effaith ar y gwasanaeth ynghyd â'r opsiynau arfaethedig a fyddai'n galluogi llwyddiant y system archebu drwy ddatblygu system Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig ar draws y rhwydwaith o Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref fel a ganlyn:

- Cadw'r system apwyntiadau TG sydd ar waith ar hyn o bryd am y deuddeg mis nesaf.
- Cadw'r system apwyntiadau TG am y deuddeg mis nesaf a threialu dull hybrid o archebu
- Cael gwared ar y system apwyntiadau TG
- Ymhen 12 mis cyflwyno system Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig a system fynediad sy'n cofrestru preswylwyr ym mhob un o'r pedair Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

Holwyd ynghylch y canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:-

- Dywedwyd bod preswylwyr yn hapus â'r system archebu bresennol, fodd bynnag, gofynnwyd am eglurhad o ran y dull o'i ddefnyddio. Cytunodd yr Aelod Cabinet fod yr adroddiadau'n awgrymu bod defnyddwyr Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ledled y Sir yn fodlon â'r dull archebu presennol ar-lein ac ar y ffôn. Yr hyn oedd yn cael ei gynnig oedd bod y system archebu bresennol yn parhau am 12 mis tra bod yr opsiwn o ran system Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig yn cael ei archwilio.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i dderbyn adroddiad Opsiynau Hygyrchedd y Dyfodol mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref.**

## 8. DARPARU PALMENTYDD MEWN ARDALOEDD GWLEDIG

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar Ddarparu Palmentydd mewn Ardaloedd Gwledig a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd. Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn ar gais y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn dilyn atgyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio ynghylch diffyg darpariaeth palmentydd mewn ardaloedd gwledig a'r ôl-groniad o geisiadau.

Mynegodd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2021 bryder ynghylch diffyg palmentydd mewn ardaloedd gwledig i hwyluso'r lefelau uwch o bobl oedd yn cerdded a beicio, a chyfeiriwyd at y ceisiadau oedd wedi dod i law am balmentydd.

Nododd yr adroddiad fod pwysau hirdymor wedi bod ar y Cyngor Sir yn dilyn y nifer fawr o geisiadau a dderbyniwyd am welliannau i'r briffordd megis uwchraddio cyffyrdd, mesurau arafu traffig, rhannau newydd o'r ffordd a llwybrau troed newydd. Roedd y ceisiadau a dderbyniwyd yn llawer mwy na'r adnoddau a oedd ar gael drwy gyllideb gyfalaf flynyddol y Cyngor a ddyrannwyd ar gyfer Gwelliannau Diogelwch Ffyrdd ac Isadeiledd Priffyrdd. Lefel y cyllid cyfalaf oedd ar gael oedd £250k y flwyddyn. Roedd lefel y cyllid yn galluogi cyflawni uchafswm o dri chynllun y flwyddyn.

Wrth ystyried y wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad, mynegwyd y sylwadau/ymholiadau canlynol gan aelodau'r Pwyllgor:

- Wrth gydnabod yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, pwysleisiwyd bod y ddarpariaeth bresennol o ran palmentydd mewn ardaloedd gwledig yn parhau i fod yn bryder mawr. Yn debyg i gynlluniau datblygu eraill, gofynnwyd a oedd ffordd o ddatrys y mater parhaus ynghylch palmentydd drwy fenthyca arian? Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n well trafod hyn fel rhan o'r Flaenraglen Waith yn dilyn yr etholiadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i dderbyn yr adroddiad Darparu Palmentydd mewn Ardaloedd Gwledig.**

## 9. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad craffu canlynol:

- Cynllun Busnes yr Adran Cymunedau 2022/23

Nododd yr Aelodau y byddai'r dyddiad cyflwyno diwygiedig ar ôl cyfnod yr etholiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.**

## 10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 1 CHWEFROR 2022

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2022 yn gywir.**

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**